

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:  
'Cynigion yn ymwneud â chyhoeddi ystadegau swyddogol'  
Ymateb oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd, gan alluogi datblygu adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy er budd pobl, yr economi a bywyd gwyllt. Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar gynigion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyhoeddi ystadegau swyddogol. Mae ein hymateb yn seiliedig ar ein rôl ddeuol fel cynhyrchydd Ystadegau Swyddogol (a data ystadegol arall) ar yr un llaw ac fel defnyddiwr llawer o ystadegau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar y llaw arall.

Gweler ein hymateb i'r cwestiynau a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori isod.

**Beth fydd effaith y cynigion hyn ar eich gwaith?**

Fel un o'r sefydliadau a enwyd yng Ngorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cyfle i weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru ar gynhyrchu a chyhoeddi'r Ystadegau Swyddogol rydym yn gyfrifol amdanynt. Wrth i ni ddatblygu'n rôl yn y maes hwn, rydym yn awyddus i drafod sut gallwn ni weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, gan sicrhau ein bod yn osgoi dyblygiadau a bylchau mewn ystadegau amgylcheddol<sup>1</sup>. Bydd angen mwy o fanylion ynglŷn ag ystyr 'gweithio gyda'n gilydd' a Llywodraeth Cymru'n cyflawni 'rôl arwain', gan sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth dda o'u rolau a chyfrifoldebau. Byddem hefyd yn croesawu trafodaeth fanylach ynglŷn â'r cymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig wrth i ni ddatblygu ein rôl newydd o ran cyhoeddi ystadegau swyddogol.

Fel rhan o'r drafodaeth hon sy'n esblygu, rydym yn awyddus i gael mwy o fanylion ynglŷn â pha ystadegau amgylcheddol bydd gennym gyfrifoldeb drostynt a pha rai y bydd naill ai Llywodraeth Cymru neu gyrff cyfrifol eraill yn gyfrifol amdanynt.

---

<sup>1</sup> O ran y term 'ystadegau amgylcheddol', nodwch nad yw hyn wedi'i ddiffinio hyd yma a gallai gwmpasu ystod eang o ffynonellau data o fioamrywiaeth i wastraff ac agweddau ac ymddygiadau cysylltiedig y cyhoedd.

Dylid gwahaniaethu hefyd rhwng y cyfrifoldeb dros *gynhyrchu* data a *chyhoeddi* data, gydag eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ba agweddau. Byddem hefyd yn croesawu trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ac eraill ynglŷn â'r ystod o ystadegau amgylcheddol sydd eu hangen, er mwyn adeiladu cydweledigaeth glir o'r data sydd ei angen a sut dylid blaenoriaethu cynhyrchu a chyhoeddi'r data hwn.

### **At ba ddibenion fyddwch chi'n defnyddio'r ystadegau?**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio ystod eang o ystadegau i'n cynorthwyo â'n gwaith, gan gwmpasu rhoi cyngor, cyflawni, a monitro a gwerthuso. Rydym yn defnyddio ystod eang o ystadegau amgylcheddol, ynghyd â setiau data cymdeithasol ac economaidd eraill, er enghraifft, rhai yn ymwneud ag iechyd, y boblogaeth a'r economi.

Wrth i ni ystyried datblygiad Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn y dyfodol (fel y cynigiwyd ym Mil yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru), bydd angen i ni adolygu ystod eang o ystadegau sy'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd er mwyn penderfynu a allent fod yn ffynhonnell o ddata a gwybodaeth. Byddwn ni hefyd yn adolygu ystadegau Cymreig sydd eisoes yn bodoli (amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd) i'n cynorthwyo o bosib â llunio dangosyddion ein Cynllun Corfforaethol.

### **A ydych yn cytuno â'r pwyslais ar wneud setiau data ar gael mewn fformat agored â chyhoeddiadau ystadegol mwy dadansoddol ond llai aml?**

Ydym, rydym yn cytuno â hyn mewn egwyddor. Mae'n cyd-fynd â thueddiadau ehangach o ran cyhoeddi ystadegau, fel yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth yn ei wneud yn fwy cyffredinol.

Serch hynny, dylid rhoi ystyriaeth bellach i 'hygyrchedd' setiau data sydd ar gael, yn enwedig gan ddefnyddwyr nad ydynt yn arbenigwyr. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i ddarparu metadata a chanllawiau addas fel bod pob defnyddiwr yn gallu deall sut gall y data gael ei ddehongli, ac a oes angen ystyried unrhyw ragdybiaethau neu gyfyngiadau. Byddem hefyd yn croesawu adolygiad o anghenion defnyddwyr ac a yw cynllun StatsCymru yn cefnogi'r patrwm newydd o gyhoeddi a defnyddio arfaethedig.

Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig i gael datganiadau ystadegol mwy dadansoddol, a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod rhai o'r rhain yn fanylach. O ran amllder, byddem ni'n argymhell y dylai hyn gael ei lywio gan anghenion defnyddwyr allbynnau ystadegol unigol.

### **Ble'r ydym yn bwriadu rhoi'r gorau i gynhyrchu neu leihau nifer yr ystadegau sydd ar gael, a oes unrhyw ddibyniaethau rhwng ein hystadegau a'ch gwaith nad ydym wedi'u hystyried?**

Mae'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'r Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd o ddiddordeb mawr i Cyfoeth Naturiol Cymru. Gan fod hyn wedi'i gysylltu'n agos â datblygu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol newydd (fel y cynigiwyd ym Mil yr Amgylchedd), ystyriwn fod hyn yn destun trafod pwysig wrth i ni symud ymlaen. Nid yw cwmpas, amseriad a chyfrifoldebau casglu data wedi'u penderfynu eto mewn perthynas â hyn, a byddant yn effeithio ar unrhyw newidiadau arfaethedig o ran cyhoeddi ystadegau amgylcheddol. Dylai trafodaethau hefyd gwmpasu sut a ble dylai'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol arfaethedig gael ei gyhoeddi ac a fyddai ar gael drwy StatsCymru.

Yn y cyfamser, gall rhoi terfyn ar yr Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd arwain at gynnydd mewn ceisiadau unigol am ddata ar rhai o'r pynciau hyn. Mae rheoli'r ceisiadau hyn gyda'r adnoddau presennol yn destun pryder. Rydym hefyd yn gofidio y byddai cynigion i roi'r gorau i gyhoeddi'r Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd yn golygu nad yw data sydd wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyhoeddi, ac o ganlyniad, mae'n bosibl y byddai pobl yn defnyddio'r hen ystadegau sydd ar gael ar StatsCymru. Byddem yn awyddus i drafod y cyfle i gyhoeddi peth o'n data ar StatsCymru, ac i ddarparu dolenni i rai o'n cyhoeddiadau cysylltiedig, er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud ag Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru.

O ran newidiadau i gyhoeddi rhai cyhoeddiadau compendia, mae gennym rai pryderon ynglŷn â'r cynnig i roi'r gorau i gynhyrchu Ystadegau Cryno Ardaloedd Lleol. Wrth i ni symud tuag at ddatblygu Cynllunio Adnoddau Naturiol fel ein dull o reoli'r amgylchedd yn y dyfodol, mae'r angen i ystyried data economaidd a chymdeithasol yn golygu bydd darparu'r ystadegau hyn mewn dogfen integredig ar lefel awdurdod lleol yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth.

O ran rhoi'r gorau i gyhoeddi datganiad Tipio Anghyfreithlon fel ystadegau swyddogol tra ei fod yn parhau i fod ar gael fel data sylfaenol, byddem yn gwerthfawrogi cyfle i drafod y cynnig hwn gyda chi yn fanylach, yn enwedig ynghylch sut byddai'r data hwn yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Yn yr un modd, fel defnyddwyr ystadegau amgylcheddol, byddem yn croesawu'r cyfle i drafod manylion unrhyw newidiadau i'r gwaith o gynhyrchu cyhoeddiadau compendia eraill ar y pwnc hwn.

Rydym hefyd yn defnyddio'r rhestr nwyon tŷ gwydr ac ansawdd aer. Gan ein bod yn cymryd y data hwn o wefannau Defra, Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, a'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, byddem yn cefnogi'r cynnig i beidio â chyhoeddi'r rhain ar StatsCymru mwyach.

Parthed y newidiadau eraill, er y nodwyd y gellid rhoi'r gorau i rai allbynnau oherwydd bod y data ar gael gan ffynonellau eraill yn y DU neu Gymru / Lloegr, dylid ystyried hygyrchedd data sy'n ymwneud â Chymru yn unig. Mewn rhai achosion, gallai darparu'r data Cymru yn unig ar StatsCymru fod o fudd i'w wneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr heb iddynt orfod chwilio setiau data ehangach amdano.



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

**A oes unrhyw faterion o ran amseru y dylem eu hystyried wrth leihau amlder ystadegau?**

Yn gyffredinol, ystyriwn y dylai amlder allbynnau ystadegol gael ei ystyried fesul achos, a'i benderfynu yn ôl anghenion y defnyddwyr. Dylid hefyd ystyried cysoni cyhoeddi data dangosydd Cymru â data cyfatebol y DU fel bod data Cymru ar gael ar yr un pryd.

O ran amlder ystadegau amgylcheddol, dylid ystyried amserlen yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol arfaethedig. Ar hyn o bryd, mae cyhoeddi adroddiad bob 5 mlynedd yn cael ei ystyried.

Yn gywir

Ceri Davies

Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning  
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio  
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales  
Ffôn/Tel: (029) 20466045  
Ffôn symudol / Mobile: 07818008865  
E-bost/E-mail: [ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)  
[ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk)